Gwybodaeth bwysig i gleifion sydd angen gwaed arbelydredig

Mae eich tîm meddygol wedi gwneud cais y dylech gael gwaed arbelydredig. Ychwanegwyd y wybodaeth hon at eich cofnod meddygol, ond fel mesur diogelwch ychwanegol, dylech bob amser ddangos y cerdyn atodedig i'r tîm meddygol sy'n gyfrifol am eich gofal.

<u>Dylech ofyn bob amser a yw'r gwaed rydych yn ei dderbyn wedi'i arbelydru cyn iddo gael ei drallwyso.</u>

Beth yw gwaed arbelydredig a pham bod ei angen?

Gwaed arbelydredig yw gwaed a driniwyd ag ymbelydredd (gan belydrau-x neu fathau eraill o ymbelydredd) er mwyn atal gwrthdaro rhwng y trawsblaniad a'r celloedd lletyol yn y broses o drallwyso (TA-GvHD).

Beth yw TA-GvHD?

Mae TA-GvHD yn gymhlethdod prin ond difrifol sy'n ymwneud â thrallwyso gwaed a achosir gan gelloedd gwyn y gwaed (lymffosytau) yn y gwaed a drallwysir. Gall hyd yn oed nifer fach iawn o'r celloedd hyn adnabod bod y claf sy'n derbyn y gwaed yn 'wahanol' a gallant achosi salwch difrifol neu hyd yn oed farwolaeth.

Pa gleifion sy'n wynebu risg uwch o TA-GvHD

Mae rhai cleifion yn wynebu risg benodol o TA-GvHD, yn cynnwys:

- cleifion sy'n cael trallwysiadau gan aelodau'r teulu, rhoddwyr a barwyd ar sail teipfeinwe neu roddwyr granwlosyt (math o gelloedd gwyn y gwaed)
- cleifion ag anhwylder system imiwnedd a etifeddwyd
- cleifion sydd wedi datblygu anhwylder system imiwnedd, megis afiechyd Hodgkin's; neu oherwydd triniaeth gyda chyffuriau penodol; neu oherwydd trawsblaniad mêr esgyrn/bôn-gelloedd
- babanod yn y groth a babanod sydd angen trallwysiadau cyfnewid.

Dim ond am gyfnod byr y mae'r risg o TA-GvHD yn para i rai cleifion. Bydd cleifion eraill yn wynebu'r risg drwy gydol eu bywyd, e.e. cleifion ag anhwylder system imiwnedd a chleifion ag afiechyd Hodgkin. Mewn rhai sefyllfaoedd nid yw'r cyfnod risg yn hysbys, a gall ysbytai wneud argymhellion gwahanol ar gyfer rhai grwpiau o gleifion.
Bydd eich tîm meddygol yn eich cynghori p'un a oes angen gwaed arbelydredig arnoch chi, eich plentyn neu berthynas, ac am ba hyd.

Sut mae arbelydru'n gweithio?

Mae arbelydru gwaed yn atal lymffosytau (math o gelloedd gwyn y gwaed) rhag rhannu ac achosi niwed.

A gaiff pob gwaed ei arbelydru fel mater o drefn?

Na. Ni chaiff trallwysiadau celloedd coch na phlatennau eu harbelydru fel mater o drefn, ac mae angen eu harbelydru 'ar alw' ar gyfer cleifion sy'n wynebu'r risg o TA-GvHD.

Mae'n bwysig eich bod yn atgoffa eich tîm meddygol bod angen gwaed arbelydredig arnoch, gan fod rhaid iddynt ei archebu yn arbennig.

Caiff yr holl drallwysiadau platennau a granwlosyt (celloedd gwyn) eu harbelydru fel mater o drefn. Nid yw plasma ffres wedi'i rewi a chynhyrchion plasma, e.e. anti-D, albwmin ac imiwnoglobwlin, yn cynnwys lymffosytau nac yn achosi TA-GvHD ac felly, nid oes angen eu harbelydru.

A yw arbelydru yn niweidio'r gwaed?

Nid yw arbelydru yn achosi unrhyw niwed sylweddol. Nid yw'r gwaed yn mynd yn 'ymbelydrol' ac ni fydd yn eich niweidio chi nac unrhyw un o'ch amgylch.

Beth os bydd angen gwaed ar frys?

Er bod gwaed arbelydredig wedi argymell ar eich cyfer, os cewch waed nad yw wedi'i arbelydru, mae'r risg o TA-GvHD yn fach iawn.
Mewn achosion brys, efallai na fydd digon o amser i wneud trefniadau i ddarparu gwaed arbelydredig oherwydd gall fod yn bwysicach i ddarparu gwaed yn gyflym. Bydd y tîm meddygol sy'n eich trin yn pwyso a mesur y risgiau hyn.





Ffynonellau ychwanegol o wybodaeth

Gellir cael rhagor o wybodaeth ar drallwysiad gwaed mewn taflenni gwybodaeth eraill i gleifion. Gellir cael mynediad i'r rhain yn:
https://portal.welsh-blood.org.uk/bht/gwybodaeth-cleifion-cyhoedd-2/

Os oes gennych unrhyw gwestiynau pellach, gofynnwch i'r tîm meddygol sy'n rhoi triniaeth i chi.
Os oes gennych ddiddordeb mewn dysgu mwy am drallwysiadau gwaed a bod gennych fynediad i'r rhyngrwyd, efallai y bydd y gwefannau canlynol o ddefnydd i chi:

NHS Choices
www.nhs.uk/Conditions/Blood-transfusion/

Gwasanaethau Trallwyso'r DU
www.transfusionguidelines.org.uk

Gwasanaeth Gwaed Cymru
www.gwaedcymru.org.uk

Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG
www.nhsbt.nhs.uk/what-we-do/blood-transfusion/

Fel mesur rhagofalus i leihau'r risg o drosglwyddo vCJD, nid yw pobl sydd wedi cael trallwysiad gwaed ers 1980 yn gallu rhoi gwaed ar hyn o bryd. Er mwyn cynllunio ar gyfer y galw am waed yn y dyfodol, mae angen casglu gwybodaeth am ba gleifion sy'n derbyn gwaed.
Mae'n bosibl y byddwn yn gofyn i ysbyty neu feddyg teulu roi gwybodaeth feddygol gyfyngedig am sampl o gleifion sydd wedi cael trallwysiadau gwaed. Mae unrhyw wybodaeth sydd yn cael ei hanfon ymlaen i GGC yn cael ei chadw'n ddiogel, ac mae hawliau'r cleifion hyn yn cael eu diogelu o dan y ddeddfwriaeth diogelu data.
Gellir cael fersiwn hwylus i'w hargraffu o'r daflen hon yn:
https://portal.welsh-blood.org.uk/bht/gwybodaeth-cleifion-cyhoedd-2/

Gweithwyr iechyd proffesiynol - gallwch archebu copïau ychwanegol o'r daflen hon yn:
https://wbs-intranet.cymru.nhs.uk/bht/ leaflet-order-form/

Cydnabyddiaethau i Waed a Thrawsblaniadau'r GIG am gynnwys gwreiddiol y daflen hon.

Gwasanaeth Gwaed Cymru
gwaedcymru.org.uk

GGC Cyf 092C Fersiwn 4 04/19

GIG CYMRU NHS WALES
Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre Velindre University NHS Trust